Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020

# Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd

Chwefror 2019

Fersiwn 4

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds: Investing in Wales**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 3 |
| Trosolwg ar y prif ofynion cyhoeddusrwydd | 4 |
| Prif ofynion cyhoeddusrwydd | 5 |
| - Logos | 5 |
| - Gwybodaeth i Fuddiolwyr | 5 |
| - Placiau coffa a phosteri | 6 |
| Byrddau Posteri | 6 |
| - Dros dro | 6 |
| - Parhaol | 6 |
| Datganiadau i'r Wasg | 7 |
| Gwefan | 7 |
| Awgrymiadau a gofynion eraill o ran rhoi cyhoeddusrwydd i'ch prosiect UE | 8 |
| - Cyfryngau Cymdeithasol | 8 |
| - Digwyddiadau gwybodaeth a Diwrnod Ewrop | 9 |
| - Eitemau hysbysebu | 9 |
| Y Gymraeg, hygyrchedd a chynaladwyedd | 9 |
| Dangos tystiolaeth o'ch gweithgareddau cyhoeddusrwydd | 9 |
| Cyswllt am gyngor a gwybodaeth bellach ynghylch cyhoeddusrwydd | 10 |
| Atodiadau pecyn cyhoeddusrwydd: | 10 |
| - Rhestr wirio cyhoeddusrwydd | 11 |
| - Gofynion logo | 13 |
| - Logos ERDF/ESF | 17 |
| - Negeseuon allweddol | 18 |
| - Templed poster (cyhoeddir gan dîm Cyfathrebu WEFO) | |

## RHAGARWEINIAD

Cafodd y canllaw gwybodaeth a chyhoeddusrwydd hwn ei ddatblygu i gynyddu cyhoeddusrwydd i'r eithaf a thynnu sylw at y cyfraniad y mae cronfeydd yr UE yn ei wneud yng Nghymru ac i sicrhau eich bod chi, fel noddwyr a buddiolwyr, yn cydymffurfio â rheoliadau'r UE fel nad yw arian yn cael ei beryglu.

Mae'r buddsoddiad dros gyfnod cyllido 2014–2020 yn werth oddeutu i £1.8 biliwn. Felly, mae'n bwysig i Lywodraeth Cymru, noddwyr a buddiolwyr weithio gyda'i gilydd i gyfleu'r cyfleoedd a'r cyflawniadau sy'n dod drwy gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd a'r effaith y maent yn ei chael drwy drawsnewid rhagolygon economaidd Cymru, creu swyddi newydd, rhoi hwb i fusnes a chynorthwyo pobl i gael i mewn i waith a hyfforddiant.

Rydym ni i gyd yn rhannu'r cyfrifoldeb i gyfleu manteision y buddsoddiad hwn, ac mae hyn yn amod ddi-gwestiwn ar gyfer cyllid yr UE, fel yr eglurwyd yn eich llythyr cytundeb cyllido. Yn neilltuol, rhaid i noddwyr sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n eang ymhlith buddiolwyr, cyfranogwyr, contractwyr, busnesau, partneriaid a'r cyhoedd yn gyffredinol fel bod pawb yn gwbl ymwybodol o'r cyfraniad y mae cronfeydd yr UE yn ei wneud i'r rhanbarth.

Mae yna lawer o ffyrdd y gellwch hybu eich cynllun a gefnogir gan yr UE a'r cyfraniad a wnaeth cronfeydd yr UE tuag at ei gyflawni. Er enghraifft, drwy ddefnyddio datganiadau i'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol a/neu gwefannau a thrwy drefnu lansiad, digwyddiad ac ymweliad un o Weinidogion Cymru â'ch cynllun. Ffordd arall bwysig o ddangos effaith eich cynllun yw astudiaethau achos a hanesion o ddiddordeb dynol. Disgwylir i chi hefyd arddangos placiau a phosteri sy'n dwyn logo'r UE (a byrddau posteri ar gyfer prosiectau seilwaith/cyfalaf) gan fod y rhain yn ofynion rheoliadol i wneud cronfeydd yr UE yn fwy gweladwy i gynulleidfa eang.

Wrth gwrs, mae yna lawer mwy o ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i'ch cynllun a byddwn yn eich annog a'ch helpu i fod yn arloesol wrth gynllunio ac ymgymryd â gweithgareddau cyfathrebu ar gyfer eich prosiect UE.

Efallai y cewch y bydd yn fuddiol paratoi eich cynllun cyfathrebu eich hun, gan amlinellu sut y bwriadwch ateb y gofynion a eglurir yn y canllaw hwn megis:

- sut y bwriadwch hysbysu buddiolwyr / cyfranogwyr / contractwyr / busnesau am gefnogaeth cyllid yr UE;
- sut yr ydych yn cynllunio i hysbysebu eich cynllun UE, drwy ba sianelau ac i ba gynulleidfaoedd;
- sut yr ydych yn gobeithio arddangos placiau, byrddau posteri a phosteri mewn mannau amlwg;

Rydym ni yma i'ch cynorthwyo chi i gynyddu eich cyhoeddusrwydd i'r eithaf, ac felly rhowch wybod i ni pan fyddwch yn datblygu eich cynlluniau cyfathrebu a rhowch wybod i ni am gerrig milltir allweddol a storïau newyddion da yn ymwneud â'ch cynllun UE er mwyn i ni allu eu hyrwyddo, gan gynnwys drwy Twitter a'n gwefan.

Dylech gofio mai Gweinidogion Llywodraeth Cymru sy’n arwain pob cyhoeddiad yn ymwneud â dyfarnu cyllid yr UE ar gyfer cynlluniau. Gallwn fod o gymorth i gynllunio a pharatoi cyhoeddusrwydd ar gyfer cyhoeddiad gan Weinidog er mwyn codi ymwybyddiaeth o’ch cynllun UE. Er mwyn nodi llwyddiannau a cherrig milltir o ran cyflawni, gallwn hefyd drefnu dyfyniadau gan Weinidogion i’w cynnwys yn eich hysbysiadau yn y wasg ac ymweliadau gan Weinidogion Cymru â’ch cynllun.

Cadwch mewn cof hefyd fod byrddau posteri, digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddusrwydd eraill, gan gynnwys cyfieithu, i gyd yn gostau cymwys yn eich cynllun. Felly, dylech drafod gyda’ch swyddog datblygu prosiect (SDP) o WEFO ar y dechrau wrth wneud cais am gyllid yr UE fel y gellir cynnwys y costau hyn yn eich cynllun busnes.

## TROSOLWG AR Y PRIF OFYNION CYHOEDDUSRWYDD

Unwaith y bydd cyllid yr UE wedi cael ei ddyfarrnu i’ch cynllun, mae’n hanfodol eich bod yn cynnal y gweithgareddau cyhoeddusrwydd canlynol ar gyfer eich prosiect ac yn tynnu sylw at gefnogaeth yr UE. Mae hyn yn cynnwys:

- cydnabod **Cronfeydd yr UE** pan fyddwch yn cyfeirio at eich cynllun neu’n ei hysbysebu;
- hysbysu’r rheiny sy’n cymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys cyfranogwyr, busnesau a chontractwyr eu bod yn elwa o gyllid yr UE;
- sicrhau bod trefniadau yn eu lle fel eich bod chi a darparwyr/contractwyr cynllun a busnesau sy’n derbyn cymorth ariannol yn cydnabod cyllid yr UE mewn gweithgareddau cyhoeddusrwydd, gan gynnwys arddangos plac parhaol (ar gael am ddim o WEFO) a phoster (gan ddefnyddio templed y WEFO) mewn safle amlwg lle bydd gweithgareddau’r prosiect yn cael eu cynnal;
- codi bwrdd posteri dros dro wrth adeiladu cynlluniau seilwaith/cyfalaf;
- gosod bwrdd posteri parhaol yn cydnabod cymorth ariannol yr UE gan ddefnyddio templed WEFO ar ôl cwblhau pob cynllun seilwaith/cyfalaf;
- gosod logo cyllid yr UE ar eich gwefan gyda dolen gyswllt at www.llyw.cymru/ue-ariannu a www.gov.wales/eu-funding.
- trafod gyda WEFO i drefnu cyhoeddiad gan Weinidog ynghylch dyfarnu cyllid yr Undeb Ewropeaidd i’ch cynllun;
- sicrhau bod pob hysbysiad yn y wasg, cylchlythyr, cynnwys ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol a phob deunydd hysbysebu arall sy’n gysylltiedig â’ch cynllun yn cydnabod cyllid yr UE mewn man amlwg, gan gynnwys defnyddio logo/logos; a
- chyfeirio bob amser at gronfa’r UE (Cronfa Gymdeithasol Ewrop, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, neu Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd) **nid WEFO.**

## Y PRIF OFYNION CYHOEDDUSRWYDD

### Logo

Rhaid i bob noddwr, darparwr, busnes, contractwr, y dyfarnwyd cymorth ariannol yr UE iddynt (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), ddefnyddio logo cronfa'r UE mewn print, cyhoeddiadau ac ar-lein. Mae hyn yn cynnwys hysbysebion, taflenni, disgrifiadau swyddi, cylchlythyrau, penawdau llythyrau, eitemau hyrwyddo, deunydd ysgrifennu corfforaethol (e.e. cardiau busnes), adroddiadau, dogfennaeth (e.e. taflenni amser gwaith, deunyddiau cynefino, gwahoddiadau ac yn y blaen.

Mae fformat Jpg ac EPS o'r logos ar gael gan Dîm Cyfathrebu WEFO. Er mwyn sicrhau bod y logos wedi eu harddangos yn briodol ar ddeunydd hysbysebu, anfonwch ddrafft, os gwelwch yn dda, o'ch holl waith celf arfaethedig at Dîm Cyfathrebu WEFO am gyngor a chymeradwyaeth.

Gwelwch atodiad B am arweiniad pellach sut y dylech ddefnyddio logo'r UE.

### Gwybodaeth i fuddiolwyr

Mae'n rhaid i noddwyr, darparwyr, busnesau, contractwyr, y dyfarnwyd cymorth ariannol yr UE iddynt (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), sicrhau bod eu buddiolwyr/cyfranogwyr yn gwybod eu bod yn cymryd rhan mewn cynllun sy'n cael ei gyllido gan yr UE. Er enghraifft, mae datgan yn glir y cymorth ariannol gan gronfeydd yr UE mewn llythyrau i rai sy'n mynychu cynlluniau hyfforddiant a gwaith, yn ogystal â defnyddio logo'r UE ar dystysgrifau dyfarnu/ffurflenni cais ac yn y blaen, yn rhai o'r ffyrdd y gellwch dynnu sylw at gymorth ariannol yr UE. Dylid gosod y plac coffa a'r poster hefyd mewn man lle y bydd yn hollol weladwy i fuddiolwyr.

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi hysbysu buddiolwyr eu bod yn cymryd rhan mewn prosiect UE, gan y bydd angen hyn fel rhan o ymweliadau arolygu a dilysu WEFO ac archwiliadau eraill. Gallech:

- dynnu sylw at y cymorth yn unrhyw gontractau neu waith papur a roddir i fuddiolwyr;
- datgan y gefnogaeth mewn cylchlythyrau a newyddion mewnol;
- rhoi taflen i'r buddiolwr yn egluro buddsoddiad cyllid yr UE yn eich cynllun (ceir awgrym o destun gan Dîm Cyfathrebu WEFO);
- sicrhau bod placiau a phosteri yn cael eu defnyddio a'u gosod mewn lleoliad amlwg yn unol â'r arweiniad hwn;
- defnyddio logo(s) y gronfa/cronfeydd perthnasol ar gyhoeddiadau a chyfryngau electronig, yn unol â'r canllaw hwn.

**Placiau coffa a phosteri**

Mae'n ofynnol i sefydliadau y dyfarnwyd cymorth ariannol iddynt gan yr UE arddangos poster (maint A3 o leiaf; ac wedi ei ddylunio gan WEFO). Caiff y poster ei gyhoeddi ichi wedi i'r cynllun gael ei gymeradwyo ar gyfer cyllid yr UE ac wedi iddo gael ei gyhoeddi'n ffurfiol. Rhaid lleoli'r poster wrth y brif fynedfa/y brif dderbynfa, neu'r rhan fwyaf gyhoeddus o'r adeilad er mwyn iddynt fod yn amlwg weladwy i'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal ag i'r staff, y cyfranogwyr a buddiolwyr eraill.

Mae'n rhaid i'r poster A3 gael ei arddangos gan bob sefydliad sy'n cael cymorth ariannol drwy gynllun a ariennir gan yr UE, gan gynnwys y rheini sy'n derbyn arian yr UE gan noddwyr prosiectau arweiniol i ddarparu gweithgareddau'r cynllun megis hyfforddi sgiliau i gyfranogwyr neu gymorth busnes.

Ar gyfer noddwyr arweiniol a phartneriaid prosiectau, rydym hefyd yn gofyn i chi arddangos plac coffa (sydd ar gael am ddim gan WEFO) yn rhan fwyaf cyhoeddus yr adeilad.

**Byrddau posteri**

***Byrddau posteri yn ystod y cyfnod adeiladu***

Pan fydd cyfanswm y cyfraniad gan y cyhoedd (sef Cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd ac unrhyw arian cyhoeddus arall i gefnogi'r prosiect) i gynlluniau seilwaith neu adeiladu yn fwy na €500,000 rhaid codi bwrdd posteri ar y safle yn ystod y cyfnod adeiladu.

Gall byrddau posteri naill ai adlewyrchu'r holl ffynonellau cyllid neu ddangos logo cronfeydd perthnasol yr UE yn unig. Bydd angen cytuno gyda Thîm Cyfathrebu WEFO ar faint a safle'r logo er mwyn cyfarfod â'r meini prawf canlynol:

- rhaid i amcan y weithgaredd a ariennir gan yr UE ynghyd â logo Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) orchuddio **o leiaf 25%** o faint y bwrdd posteri;

- Ni ddylai logo cronfa'r UE fod yn llai nag unrhyw logo arall a ddangosir ar y bwrdd posteri.

Mae enghreifftiau o fyrddau posteri yn y gofynion logo yn Atodiad B ar ddiwedd y ddogfen hon.

***Byrddau posteri parhaol wedi i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau***

Pan fydd y gwaith seilwaith/adeiladu wedi ei gwblhau, mae'n rhaid i'r noddwr arddangos o fewn 3 mis fwrdd posteri parhaol o faint sylweddol gan ddefnyddio dyluniad / templed a ddarparwyd gan WEFO mewn lleoliad y tu allan mewn lle hawdd i'r cyhoedd ei weld. A fyddech cystal â chysylltu â Thîm Cyfathrebu WEFO i gael cyngor ac iddynt gymeradwyo eich gwaith celf cyn cynhyrchu'r bwrdd posteri.

**Datganiadau i'r wasg**

Rhaid i bob datganiad i'r wasg, erthyglau nodwedd a darnau hysbysebu sy'n ymwneud â'ch cynllun a ariennir gan yr UE, buddiolwr, busnes ac yn y blaen gydnabod y cyllid a ddyfarnwyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop / neu Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Dylai hyn ymddangos yn amlwg ym mhrif gorff hysbysiadau yn y wasg, h.y. nid mewn 'Nodiadau i Olygyddion' nac mewn troednodyn. Peidiwch â chyfeirio at WEFO os gwelwch yn dda; yn hytrach, defnyddiwch un o'r gosodiadau cydnabod canlynol ar gyfer arian Ewropeaidd:

- **Ariennir y cynllun yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.**
- **Cefnogwyd y cynllun gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.**
- **Bydd y cynllun, a gefnogir â £12 miliwn o Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru, yn gymorth ...** ac ati; a
- **Cefnogir y cynllun gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.**

Dylech hefyd ddisgrifio sut y mae Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a/neu Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn gymorth i greu swyddi, cefnogi busnesau a/neu gynyddu sgiliau. Cewch ddefnyddio rhai o'r negeseuon allweddol yn y pecyn offer cyhoeddusrwydd ar ddiwedd y canllaw hwn neu gysylltu â Thîm Cyfathrebu WEFO am gyngor.

**Dylid anfon datganiadau drafft ar gyfer y wasg, cyn gynted ag y bo modd cyn eu cyhoeddi, at Dîm Cyfathrebu WEFO i gael cyngor a chymeradwyaeth**. Bydd y trefniant hwn hefyd yn ein galluogi i ystyried cynnwys dyfyniad gan Weinidog a/neu bresenoldeb Gweinidog mewn digwyddiad arfaethedig, yn ogystal â chwarae rhan o bosibl yn ystod cyfnod cynllunio'r digwyddiad. Bydd hefyd o gymorth i sicrhau y gallwn gynyddu i'r eithaf unrhyw gysylltiadau cyhoeddus cysylltiedig â digwyddiadau, llwyddiannau'r prosiect a cherrig milltir/astudiaethau achos drwy hybu storïau ar wefan Llywodraeth Cymru, y cyfryngau cymdeithasol, a chael sylw rhanbarthol, cenedlaethol/yr UE ac yn y blaen.

**Gwefan**

Rhaid i chi gydnabod cronfeydd yr UE ar eich gwefan. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi logo'r ESF neu ERDF mewn fformat amlwg a hawdd ei weld. Gwnewch yn siŵr, os gwelwch yn dda, ei fod o leiaf 203px wrth 154px ac yn cysylltu â thudalennau ariannu yr UE ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhaid i chi hefyd gyhoeddi disgrifiad byr o'ch prosiect, gan gynnwys ei nodau a'i ganlyniadau, ac enw'r gronfa y cafodd y cymorth ariannol ei gymeradwyo ohoni. **Lle bo gwefan wedi ei datblygu yn bwrpasol ar gyfer cyflawni cynllun yr UE, yna dylai'r logo ynghyd â'r wybodaeth hon ymddangos ar dudalen hafan y wefan.**

**AWGRYMIADAU A GOFYNION ERAILL HYSBYSEBU EICH PROSIECT UE**

**Y Cyfryngau Cymdeithasol**

Dylai'r logo/cydnabyddiaeth o gefnogaeth yr UE fod yn weladwy dros ben ar yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol. Os na ellir gosod logo cronfa'r UE yn hawdd, yna dylid cynnwys cydnabyddiaeth o'r cymorth ariannol. Er enghraifft, dylai trydar sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyflawni gyfeirio at gronfeydd yr UE, er enghraifft:

- Cynllun BUDDSODDI a ariennir gan yr UE yn cynorthwyo 100 o fusnesau i ehangu

Mae defnyddio'r cyfeiriad at gyllid yr UE a/neu'r hashnod yn ein galluogi i ddilyn y sgwrs a, lle bo'n briodol, hybu neu aildrydar eich gweithgareddau, er enghraifft:

- Prosiect BUDDSODDI a ariennir gan yr UE yn cynorthwyo 100 o fusnesau i ehangu #cyllidUE

Yn yr un modd, wrth baratoi clipiau fideo neu osod darn o fideo ar YouTube, mae'n rhaid i chi gynnwys y logo UE perthnasol yn amlwg ar dudalen y pennawd. Hefyd, yn achos sgriptiau fideo, dylai unigolion sy'n siarad yn y fideo gyfeirio'n llafar at y cymorth ariannol y mae'r prosiect wedi ei dderbyn gan yr UE, er enghraifft:

- "Gyda chymorth cyllid yr UE, llwyddasom i gynorthwyo mwy o bobl i ennill cymwysterau .. "

**Digwyddiadau Gwybodaeth a Diwrnod Ewrop**

Gall cynadleddau, seminarau, ffeiriau ac arddangosfeydd fod yn gyfrwng ardderchog i hybu eich prosiect sy'n cael ei ariannu gan yr UE. Arddangoswch logo cronfa'r UE, os gwelwch yn dda, mewn safle amlwg (e.e. ar ben stondinau arddangos / baneri a llenyddiaeth) ac ar unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd arall a ddefnyddir ar gyfer y digwyddiad.

Anogir noddwyr i godi baner yr Undeb Ewropeaidd uwchben eu safle yn ystod yr wythnos o'r 9fed o Fai (Diwrnod Ewrop) bob blwyddyn o gyfnod y rhaglen 2014-2020. Anogir noddwyr hefyd i gynllunio gweithgareddau arloesol i hybu cyfraniad cyllid yr UE i gyflawni gweithgareddau. Gallai hyn gynnwys digwyddiad, cyfle Cysylltiadau Cyhoeddus, cystadleuaeth. Gweler fideo'r pecyn offer cyhoeddusrwydd am restr o weithgareddau cyhoeddusrwydd sy'n enghreifftiau o arferion da.

**Eitemau hybu**

Mae eitemau hybu'n cynnwys baneri, stondinau dros dro, cyflwyniadau gweledol, pinnau ysgrifennu, cortynnau, mygiau, modrwyau allweddi, bagiau, crysau T, DVDs ac yn y blaen. Dylid defnyddio logo perthnasol cronfa'r UE ar yr holl eitemau hybu sy'n ymwneud â'r cynllun a ariennir gan yr UE a dylid ei osod ar yr ochr dde lle bo modd. Dylech anfon eich gwaith celf/dyluniad at Dîm Cyfathrebu WEFO i gael cyngor a chymeradwyaeth.

## Y GYMRAEG, HYGYRCHEDD A CHYNALADWYEDD

Dylech sicrhau bod yr holl ddeunydd gwybodaeth a chyhoeddusrwydd yn gwbl hygyrch ac ar gael i gynulleidfa eang ac amrywiol (Deddf Cydraddoldeb 2010) a bod y safonau a amlinellwyd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cael eu mabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod modd i gyhoeddiadau, gwefannau, deunydd cyhoeddusrwydd ac yn y blaen, sy'n cael eu cefnogi gan gronfeydd yr UE, fod ar gael yn ddwyieithog, ac mewn fformat hygyrch arall, e.e. braille.

At hynny, dylid ystyried ymwybyddiaeth o'r amgylchedd a datblygiad cynaliadwy yn ofalus wrth gynhyrchu llenyddiaeth sydd wedi ei hargraffu a defnyddio deunyddiau y gellir eu hailgylchu.

## CADW TYSTIOLAETH O'CH GWEITHGAREDDAU CYHOEDDUSRWYDD

Mae'n rhaid i chi gadw cofnodion i ddangos eich bod yn cyflawni gweithgareddau cyhoeddusrwydd yn unol â rheoliadau'r UE a chanllawiau WEFO ar wybodaeth a chyhoeddusrwydd. Mae'n bwysig i chi gadw copïau o hysbysiadau yn y wasg,

cylchlythyrau, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, tystiolaeth eich bod wedi defnyddio placiau, byrddau posteri a phosteri yn ystod oes eich cynllun. Mae hefyd yn rhaid i chi wneud trefniadau tebyg gyda darparwyr a chontractwyr sydd â rhan mewn cyflawni gweithgareddau cynlluniau a ariennir gan yr UE.

Caiff y dystiolaeth hon hefyd ei harolygu yn ystod archwiliadau a gwiriadau dilysu a gyflawnir gan WEFO ar gynlluniau a ariennir gan yr UE. At hynny, cynhelir archwiliadau a gwiriadau ar ddetholiad o brosiectau gan Awdurdod Archwilio Cronfeydd Strwythurol Llywodraeth Cymru a gan y Comisiwn Ewropeaidd. Cofiwch:

**Mae modd i beth neu'r cyfan o'r arian cyllido a ddyfarnwyd gael ei hawlio'n ôl os na chaiff cymorth ariannol yr UE ei gydnabod yn unol â'r llythyr cytundeb cyllido a'r canllaw hwn ynglŷn â Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd.**

## CYSWLLT AR GYFER CYNGOR A GWYBODAETH BELLACH AM GYHOEDDUSRWYDD

Byddwch mor garedig â dal i roi gwybodaeth i ni am yr hyn yr ydych wedi ei gyflawni, y cerrig milltir a'ch hanesion am lwyddiant, fel y gallwn eich helpu i gynyddu'r cyhoeddusrwydd, er enghraifft, drwy ein sianel Twitter, ein gwefan yn ogystal ag ystyried cynnwys Gweinidog yn y prosiect. Hefyd, anfonwch eich brandio/deunyddiau marchnata/gwaith celf (gan gadarnhau mesuriadau logo'r UE) i gael eu cymeradwyo ymhell cyn eich dyddiad cyhoeddi fel y gallwn roi cyngor a chymorth priodol mewn pryd cyn eich dyddiad cau

**WEFO-Communications@llyw.cymru**
**WEFO Rhif y llinell gymorth: 0845 0103355**

## PECYN OFFER CYHOEDDUSRWYDD:

Atodiad A: Rhestr wirio cyhoeddusrwydd
Atodiad B: Gofynion logo
Atodiad C: logos ERDF/ESF
Atodiad D: Negeseuon allweddol
*Templed poster (i gael ei ddarparu i bob prosiect gan dîm Cyfathrebu WEFO)*
*Templedi bwrdd posteri parhaol (i ddilyn)*
*Dolen gyswllt ag enghreifftiau o arfer da/fideo (i ddilyn)*

**ATODIAD A**

## RHESTR WIRIO CYHOEDDUSRWYDD

Crynodeb yw'r tabl isod o'r gweithgareddau cyhoeddusrwydd y mae'n rhaid i chi gydymffurfio â hwy ar gyfer gweithgaredd a ariennir gan ERDF/ESF/ESI. Dylech ddarllen y canllaw i gyd i sicrhau eich bod yn cydymffurfio'n llawn â gwybodaeth a rheoliadau cyhoeddusrwydd yr UE. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gwblhau copi o'r rhestr wirio isod er mwyn sicrhau eich bod wedi cydymffurfio â phob gweithgarwch angenrheidiol o ran cyhoeddusrwydd.

| Gweithgaredd cyfathrebu | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) | Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) |
|---|---|---|
| **Y wasg a chysylltiadau cyhoeddus – hybu'r cynllun a ariennir gan yr UE drwy ddatganiadau i'r wasg, cylchlythyrau, hysbysebion ac yn y blaen** | 1' | 1' |
| **Arddangos logos ar yr holl ddeunydd gwybodaeth a chyhoeddusrwydd gan gynnwys deunydd ysgrifennu, eitemau hybu, taflenni hysbysebu, llyfrynnau, tystysgrifau, llythyrau dyfarnu cyllid** | 1' | 1' |
| **Arddangos poster A3 mewn safle amlwg (templed o'r poster ar gael gan WEFO)** | 1' | 1' |
| **Gosod byrddau posteri ar gyfer seilwaith / gwaith adeiladu – dros dro a pharhaol** | 1' | |
| **Cydnabod #cyllidUE ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer eich cynllun UE** | 1' | 1' |
| **Mae datblygu strategaeth gyfathrebu yn ddefnyddiol i ddangos sut yr ydych yn bwriadu hybu eich cynllun UE i gynulleidfa eang** | 1' | 1' |

| | | |
|---|---|---|
| **Hybu cyfraniad cyllid yr UE i weithgareddau eich cynllun mewn digwyddiadau, cynadleddau, seminarau a gweithdai ac ar Ddiwrnod Ewrop** | ☐ | ☐ |
| **Hysbysu buddiolwyr / cyfranogwyr / darparwyr / busnesau a chontractwyr, gan arddangos posteri a logos fel sy'n briodol** | ☐ | ☐ |
| **Disgrifiad o weithgaredd cynllun yr UE a logo ar y wefan** | ☐ | ☐ |
| **Tystiolaeth o weithgareddau cyhoeddusrwydd / cadw cofnodion ar gyfer y Tîm Rheoli Gwireddiadau a'r Archwilwyr** | ☐ | ☐ |

**ATODIAD B**

## GOFYNION LOGO

Rhaid i bob noddwr, darparwr, busnes, contractwr, a phawb arall sydd â rhan mewn cyflawni gweithgareddau'r UE, ddefnyddio logo ERDF neu ESF mewn print a chyhoeddiadau cysylltiedig â'r cynllun a ariennir gan yr UE. Mae hyn yn cynnwys hysbysebion, taflenni, eitemau hyrwyddo, disgrifiadau swyddi, cylchlythyrau, penawdau llythyrau, cardiau busnes, adroddiadau, dogfennaeth prosiect (e.e. taflenni amser gwaith, deunyddiau cynefino, eitemau hysbysebu, gwahoddiadau ac yn y blaen). Mae fformat Jpg ac EPS o'r logos ar gael gan Dîm Cyfathrebu WEFO.

### Maint y logo a'r geiriad

Rhaid ailgynhyrchu logos rhaglen 2014-2020 i safon boddhaol pan fyddant wedi eu chwyddo, ac yn gwbl ddarllenadwy pan fydd eu maint wedi ei leihau. Peidiwch ag ailgynhyrchu'r logo, os gwelwch yn dda, os na ellir darllen yr holl destun ar y logo'n hawdd.

Er mwyn sicrhau bod modd darllen y logos i gyd, defnyddiwch y mesuriadau canlynol, os gwelwch yn dda, fel arweiniad i'r hyn sy'n ofynnol wrth osod logos ar gyhoeddiadau / dogfennau / llyfrynnau / tystysgrifau / llythyrau dyfarnu cyllid i gontractwyr / darparwyr / busnesau ac yn y blaen:

- A4: 45mm o led x 33mm o uchder
- A3: 50mm o led x 36mm o uchder
- A2: 62mm o led x 45mm o uchder
- A1: 92mm o led x 67mm o uchder
- A0: 150mm o led x 109mm o uchder

Os bydd argraffu yn y maint hwn, ar adegau, yn bygwth gwneud y logo'n anodd ei ddarllen, dylech gynnwys y testun 'Ariennir yn rhannol drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru' neu 'Ariennir yn rhannol drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru'. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r dewis hwn ond fel y dewis olaf ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd megis cylchlythyrau, taflenni hysbysebu, ac yn y blaen. Mae defnyddio'r logo yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â rheoliadau'r UE.

Pan fyddwch yn anfon gwaith celf at dîm Cyfathrebu WEFO am gymeradwyaeth, sicrhewch, os gwelwch yn dda, eich bod yn rhoi’r mesuriadau ar gyfer y cyhoeddiad/y ddogfen yn ogystal â’r mesuriadau ar gyfer logo’r ERDF/ESF. Cofiwch ganiatáu 2 ddiwrnod gwaith o leiaf ar gyfer derbyn cymeradwyaeth i waith celf gan WEFO.

**Lliw y Logo**

Dylid defnyddio’r logo mewn lliw llawn lle bynnag y bo modd. Mewn rhai amgylchiadau, gellir defnyddio fersiwn ddu a gwyn o’r logo gyda chaniatâd ysgrifenedig gan Dîm Cyfathrebu WEFO ymlaen llaw. Lliwiau’r logo yw: reflex blue, process yellow a process black:

| | |
|---|---|
| Reflex Blue | Four colour values<br>Cyan: 100%<br>Magenta: 72%<br>Yellow: 0%<br>Black 6% |
| Process Yellow | Four colour values<br>Cyan: 0%<br>Magenta: 0%<br>Yellow: 100%<br>Black: 0% |
| Process Black | Four colour values<br>Cyan: 0%<br>Magenta: 0%<br>Yellow: 0%<br>Black: 100% |

**Is-bennawd**

Yr is-bennawd ar gyfer rhaglenni 2014-2020 yw:

- Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru.

**Defnyddio logos eraill Llywodraeth Cymru**

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn darparu’r arian cyfatebol ar gyfer prosiect a ariennir gan yr UE, efallai na fydd angen i chi ond cynnwys logo’r ESF a/neu ERDF, gan fod y rhain yn cynnwys arwyddlun Llywodraeth Cymru eisoes. Fodd bynnag, bydd angen i noddwyr gael cytundeb Tîm Brand Llywodraeth Cymru (cysylltwch drwy ffonio: 0845 010 3300 neu anfon neges e-bost: Brandingqueries@llyw.cymru am arweiniad).

**Pethau i'w gwneud a phethau i beidio â'u gwneud gyda'r Logo**

1. **Peidiwch ag** ailosod yr elfennau

2. **Peidiwch ag** amrywio teip y logo

3. **Peidiwch ag** ystumio siâp y logo

4. **Peidiwch â** gosod y testun Saesneg uwchben y testun Cymraeg

5. **Peidiwch â** newid cyfeiriad y symbol

6. **Peidiwch â** newid y lliw

7.

**Peidiwch â** tharfu ar y rhan waharddedig

8. **Peidiwch â** gosod y logo mewn blwch

**Y rhan waharddedig**






Y rhan waharddedig yw'r rhan o ofod clir a ddylai amgylchynu'r logo. Bwriad hyn yw sicrhau effaith weledol, heb ymyrraeth oddi wrth elfennau eraill, e.e. logos eraill, testun ac yn y blaen.

Cyfrifir maint y rhan waharddedig drwy gymryd uchder llythyren fawr a'i lluosi efo tri. Ar gyfer cyhoeddiadau electronig, megis gwefannau, cyfrifir maint y rhan waharddedig drwy gymryd uchder llythyren fawr ar y fersiwn gif o'r logo sydd yn 5px (neu 1 x yr uchder).

**Sut i osod logo'r UE ar Fyrddau Posteri (fel ei fod yn gorchuddio 25% o ran yr arwydd)**

**ATODIAD C**

**LOGOS: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop / Cronfa Gymdeithasol Ewrop / Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**

Mae fersiynau Jpegs ac EPS ar gael drwy gysylltu â Thîm Cyfathrebu WEFO

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

**ATODIAD D**

**Negeseuon allweddol: Cronfeydd yr UE: Buddsoddi yng Nghymru**

Teimlwch yn rhydd, os gwelwch yn dda, i ddefnyddio'r negeseuon hyn i gefnogi eich deunyddiau cyhoeddusrwydd megis hysbysiadau yn y wasg, cylchlythyrau ac yn y blaen. Mae ychwanegu neges allweddol sy'n ymwneud â'ch cynllun a ariennir gan yr UE yn gymorth i'w osod yng nghyd-destun nodau rhaglenni cyllid yr UE a'u manteision i Gymru.

Mae cronfeydd yr UE yn cael effaith gadarnhaol ar bobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru drwy:

- sicrhau twf economaidd cynaliadwy a swyddi;
- cynorthwyo i adeiladu economi sy'n tyfu ac yn ffynnu;
- gwella sgiliau a helpu pobl i mewn i waith;
- gwella bywydau pobl a chymunedau ar draws y genedl;
- ymdrin â thlodi a sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb;
- ysgogi ymchwil flaengar ac arloesedd er mwyn llwyddiant byd-eang i Gymru; a
- hybu busnes a hyrwyddo cynhyrchiant er mwyn sicrhau llwyddiant masnachol.

**I gael rhagor o wybodaeth:**

**www.llyw.cymru/ue-ariannu**

**www.gov.wales/eu-funding**

**@wefowales / @wefocymru**

## Llinell Gymorth 0845 010 3355

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd yr UE:**
**Buddsoddi yng Nghymru**
**EU Funds:**
**Investing in Wales**